

Little Mix YN STADIWM ZIP WORLD, BAE COLWYN

Tel

erau ac Amodau'r Tocynnau a'r Digwyddiad

SYLWER – NI CHANIATEIR BWYD NA DIOD O UNRHYW FATH YN ARENA'R DIGWYDDIAD O'R TU ALLAN I ARDAL Y DIGWYDDIAD.

NI CHANIATEIR UNRHYW DDODREFN PICNIC NA BLANCEDI YN ARDAL Y DIGWYDDIAD.

GOFYNNWN I CHI BEIDIO Â DOD AG UNRHYW BERSAWR NAC UNRHYW HYLIFAU COLUR MEWN POTEI, GAN Y BYDDANT YN CAEL EU TAFLU WRTH I CHI GYRRAEDD AC NI FYDD MODD EU CAEL YN ÔL.

NI FYDD BAGIAU SY'N FWY NA DARN O BAPUR A4 YN CAEL EU CANIATÂU YN ARDAL Y DIGWYDDIAD.

BYDD ANGEN I OEDOLYN (18+) SYDD Â THOCYN FOD GYDAG UNRHYW UN 16 OED NEU IAU.

- Cyngerdd yn yr awyr agored yw hwn. Dewch yn barod am dywydd gwael. Bydd y cyngerdd yn cael ei gynnal boed glaw neu hindda.
- Ni fydd lle parcio ar y safle.
- Ni fydd caniatâd i anifeiliaid ar y safle ac eithrio cŵn tywys. Rhowch wybod i ni wrth brynu eich tocyn os oes arnoch angen mynediad gyda chi tywys.
- Bydd ardal wyllo hygyrch yn y digwyddiad; nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael ac mae tocynnau ar gael trwy ffonio Venue Cymru ar 01492 872000. Bydd ceisiadau'n cael eu prosesu yn ôl y cyntaf i'r felin.
- Bydd cynllun gofalwyr am ddim ar waith ond, eto, nifer cyfyngedig iawn o leoedd sydd ar gael. I wneud cais am docyn gofalwr, rhaid i gwsmeriaid gofrestru a chael eu cymeradwyo ar Gynllun Hynt. Gallwch wneud cais ar-lein ar www.hynt.co.uk

Amodau Tocynnau yng Nghyd-destun y Drwydded

1. Mae'ch tocyn yn cael ei roi yn amodol ar reolau a rheoliadau'r lleoliad y mae'ch tocyn yn ymwneud ag o ac mae'r rhain ar gael ar gais gan y lleoliad.
2. Mae'r hyrwyddwr yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i'r deiliad os, ym marn rhesymol yr hyrwyddwr, y gallai deiliad y tocyn achosi perygl i ddiogelwch y gynulleidfa a / neu'r deiliad a / neu effeithio ar fwynhad y gynulleidfa a / neu rediad y cyngerdd; er enghraifft, os yw'n ymddangos bod y deiliad dan ddylanwad alcohol a / neu gyffuriau a / neu eu bod yn ymddwyn yn ymosodol a / neu'n amhriodol.
3. Nid yw'r hyrwyddwr yn derbyn cyfrifoldeb dros unrhyw golled, anaf neu ddifrod i'r deiliad neu eiddo'r deiliad.
4. Ni chaniateir unrhyw gamerâu proffesiynol, recordwyr fideo nac unrhyw ffurf ar gyfarpar recordio fideo a sain proffesiynol yn arena'r digwyddiad.

5. Ni chaniateir dod â photeli, caniau, cynwysyddion, alcohol na bwyd i'r lleoliad. Er na chaniateir bwyd yn arena'r cyngerdd, bydd dewis o fwyd a diod ar gael yn arena'r digwyddiad.
6. Bydd rhai sy'n edrych yn iau na 25 oed angen prawf o'u hoedran i brynu alcohol.
7. Ni chaniateir tân gwyllt, tuniau nwy, fflagiau, polion, ymbaréls, cyfarpar picnic na phethau tebyg eraill y gellid eu cyfrif yn 'arf' yn y lleoliad a gellid gwrthod mynediad i unrhyw un sy'n meddu ar bethau o'r fath.
8. Gallai'r deiliad orfod gadael y lleoliad os yw'n methu â chydymffurfio â chyfarwyddiadau rhesymol stiward neu berson arall sy'n gweithredu ar ran yr hyrwyddwr.
9. Mae'r hyrwyddwr yn cadw'r hawl i chwilio'r deiliad ac eiddo'r deiliad a gwrthod mynediad i unrhyw un sy'n gwrthod derbyn chwiliad gan swyddog heddlu neu stiward neu orfodi iddynt adael.
10. Os yw'r cyngerdd yn cael ei ganslo, gallai'r deiliad ofyn i'r hyrwyddwr un ai
 - a) ad-dalu'r gwerth sydd wedi'i argraffu ar y tocyn *neu*
 - b) yn amodol ar argaeledd, cynnig tocyn arall i'r deiliad ar gyfer sioe arall sy'n cael ei hyrwyddo gan yr hyrwyddwr sy'n cynnwys yr act yn y perfformiad a ganslwyd. Mae'r digwyddiad hwn sydd â sawl artist yn cael ei farnu yn ôl y thema gyffredinol yn hytrach na'r actau unigol sydd i ymddangos. Felly, os nad yw artist sydd wedi'i drefnu'n gallu perfformio oherwydd amgylchiadau anochel ond bod yr hyrwyddwr yn parhau i gynnal y digwyddiad, ni fydd ad-daliad yn cael ei roi. Ni ellir rhoi ad-daliad am ffioedd archebu a chostau postio.
11. Ni ellir dod i mewn i'r lleoliad eto ar ôl dod iddo unwaith.
12. Ni fydd tocynnau eraill yn cael eu rhoi yn lle tocynnau sydd wedi'u colli neu eu difrodi.
 - i) Gallai tocyn fod yn annilys os oes rhan ohono ar goll, wedi'i newid, ei rwygo neu â marciau arno.
 - ii) Mae tocynnau'n cael eu hargraffu dan brosesau diogelwch. Rydych yn prynu unrhyw docynnau o ffynonellau ar wahân i asiantaethau swyddogol ar eich cyfrifoldeb eich hun a gallent fod yn annilys. **Byddwch ar wylidwriaeth am docynnau ffug.**
 - iii) Ni ellir defnyddio tocynnau yn rhan o unrhyw weithgarwch marchnata, cyfryngau na hyrwyddo gwerthiant, p'un a yw'n fasnachol neu'n anfasnachol, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr hyrwyddwr.
13. Bydd tâl gweinyddol/ffi archebu am roi tocynnau i'r digwyddiad; gallai hyn amrywio ym mhob swyddfa docynnau.
14. Mae'r deiliad yn rhoi eu caniatâd i gael eu recordio a / neu eu ffilmio ac i'r recordiad a / neu'r ffilm gael eu defnyddio mewn unrhyw gyfryngau ar draws y byd neu mewn rhan ohono.
15. Ni ellir adwerthu unrhyw docynnau, eu defnyddio ar gyfer cystadlaethau, hyrwyddiadau na phecynnau lletygarwch heb gael caniatâd ysgrifenedig gan yr hyrwyddwr. Bydd unrhyw docynnau sy'n cael eu hadwerthu neu eu trosglwyddo mewn modd felly'n annilys a gellid gwrthod mynediad i'r deiliad neu gallent gael eu gorfodi i adael arena'r digwyddiad.
16. Mae'r amseroedd sydd i'w gweld ar eich tocyn yn rhai bras yn unig ac mae'r hyrwyddwr yn argymhell i'r deiliad gyrraedd yn gynt na'r amser sydd i'w weld er mwyn osgoi unrhyw siom sy'n deillio o unrhyw newid(iadau) i'r amseroedd.
17. Mae'ch tocyn yn parhau gyda'r hyrwyddwr nes mae taliad llawn wedi'i dderbyn gan yr hyrwyddwr.

18. Pe bai'r deiliad yn torri unrhyw un o'r amodau hyn, mae'r hyrwyddwr yn cadw'r hawl i ganslo eich tocyn a chadw unrhyw arian sydd wedi'i dalu amdano.
19. Byddwch yn ymwybodol bod sŵn uchel am gyfnodau hir, dro ar ôl tro'n gallu achosi niwed parhaol i'ch clyw.
20. Uchafswm o 3 o blant am bob 1 oedolyn.
21. Dim babanod mewn breichiau.
22. Dim pramiau.
23. Dim rhai dan 5 ar y cae o gwbl.
24. Sylwch bod pris y tocynnau hyn yn cynnwys tâl gorfodol o £1 y bydd Little Mix yn ei roi i elusen therapi cerddoriaeth Nordorff Robbins. I gael gwybod mwy am yr elusen hon, gallwch fynd i'w gwefan, sef <https://www.nordoff-robbins.org.uk>

Gall sŵn uchel achosi niwed i'ch clyw.